VOSA

Asiantaeth Gwasanaethau
Cerbydau a Gweithredwyr

Eich beic modur a'r MOT

MOT

Rhaid i bawb sy'n defnyddio cerbyd ar y ffordd ei gadw mewn cyflwr addas i fod ar y ffordd bob amser. Caiff addasrwydd y car i fod ar y ffordd ei archwilio er diogelwch ar y ffordd ac er mwyn yr amgylchedd trwy gyfrwng y prawf a elwir yn MOT. Mae angen y prawf cyntaf pan mae beic modur yn dair oed.

Mae'r MOT yn archwilio rhai eitemau pwysig ar eich beic modur i sicrhau eu bod yn bodloni gofynion cyfreithiol sylfaenol allweddol adeg y prawf. Dylech fod yn ymwybodol nad yw tystysgrif MOT yn warant o gyflwr mecanyddol cyffredinol cerbyd.

Asiantaeth weithredol o'r Adran Drafnidiaeth

Achub bywydau, ffyrdd mwy diogel, lleihau troseddu, amddiffyn yr amgylchedd

Beth sy'n cael ei gynnwys mewn prawf MOT?



Elfennau i'w harchwilio:

Goleuadau: cyflwr, yn gweithio, diogelwch, a bod y prif oleuadau, y goleuadau cefn, cyfeiryddion ac adlewyrchion o'r lliw cywir. Bydd y prif oleuadau hefyd yn cael eu profi i weld a yw eu haneliad yn gywir.

Offer llywio / hongiad: cyflwr, diogelwch ac yn gweithio, gan gynnwys ffyrch, cyrn y beic, mowntinau gafael y cyrn, berynnau'r pen silindrau, mowntin yr olwyn gefn, siocleddfwyr a'r offer dileu ysgwyd/ynni dieisiau ayyb.

Olwynion a theiars: cyflwr a diogelwch yr olwynion, cyflwr y teiars, maint a math, gosodion, dyfnder y gwadn a chyflwr y falfiau.

Ffrâm: heb graciau, difrod, afluniad nac erydiad sy'n debygol o effeithio ar y llywio neu'r breciau.

Breciau: cyflwr, yn gweithio a'u perfformiad (prawf effeithlonrwydd), offer rheoli'r breciau.

Y System Ecsôst: yn gyflawn, diogel a ddim yn rhy swnllyd.

Y System Danwydd: gwirio am ollyngiadau a diogelwch y cydrannau.

Seddi: Sedd y gyrrwr o ran ei bod yno'n gyfan ac unrhyw sedd o ran diogelwch.

Aliniad yr olwynion: yr olwynion blaen a'r olwynion cefn wedi'u halinio'n gywir.

Cerbyd ochr (os oes un)**:** yn cynnwys archwilio ei gysylltiad, aliniad, hongiad, berynnau'r olwynion, aliniad yr olwynion, goleuadau a theiars.

Y Corn: yn gweithio'n iawn ac o'r math iawn.

Platiau cofrestru/rhif adnabod cerbyd/rhif ffrâm: yn bresennol, yn glir ac yn hawdd eu darllen.

Cadwyn yrru a'r sbroced: Y gadwyn ddim yn rhy lac/rhy dynn neu wedi gwisgo, archwilio'r sbrocedi am ôl traul a bod giard y gadwyn yn ddiogel.

Sbardun: yn gweithio'n iawn.

Lifer y cydiwr: sicrhau nad yw wedi plygu, ei ddifrodi nac wedi byrhau gymaint nes ei wneud yn anodd ei weithredu.

Troedleoedd: eu bod yno'n gyfan ac yn ddiogel.

Mae tystysgrif MOT yn cadarnhau bod eich cerbyd, adeg y prawf a heb gael ei dynnu oddi wrth ei gilydd, yn bodloni safonau sylfaenol gofynnol y gyfraith o ran yr amgylchedd a diogelwch ar y ffordd. Nid yw hyn yn golygu bod y cerbyd yn addas i fod ar y ffordd trwy gydol cyfnod y dystysgrif. Nid yw'r prawf yn cynnwys cyflwr yr injan, y cydiwr na'r blwch gêrs.

Ymhle y gallaf gael prawf MOT?

Mae tua 1900 o weithdai beiciau modur wedi'u hawdurdodi i gynnal profion MOT ar feiciau modur yn y wlad, a gall unrhyw un ohonynt gynnal prawf MOT ar eich beic modur chi. Mae'r logo 'tri thriongl' glas, y mae'n rhaid i'r gorsafoedd hyn ei arddangos, yn dynodi gorsafoedd profi awdurdodedig. Rhaid arddangos y ffi uchaf y gellir ei chodi am brawf ar boster ym mhob gorsaf brofi. Gall gorsafoedd profi godi llai na hyn os ydynt yn dymuno.

Sut mae cerbydau'n cael eu profi?

Mae gan orsafoedd profi MOT fannau penodedig ar gyfer cynnal y prawf, gan ddefnyddio amrediad o offer sy'n bodloni'r gofynion ar gyfer cynnal profion MOT.

Mae'r gweithdrefnau profi safonol wedi'u nodi mewn llawlyfr archwilio a ddylai fod ar gael yn yr orsaf brofi ar gais. Os bydd eich cerbyd yn methu'r prawf, byddwch yn cael dogfen methu fydd yn cyfeirio at y llawlyfr hwn. Gallwch wylio'r prawf o ardal wylio benodedig ond ni chewch darfu ar y sawl sy'n cynnal y prawf wrth ei waith.

Mae pawb sy'n cynnal profion MOT wedi dilyn cwrs hyfforddi gyda'r Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) ac mae canlyniadau eu profion yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Pwy sy’n goruchwylio’r cynllun?

Yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) yw'r asiantaeth a bennwyd gan y llywodraeth i fod yn gyfrifol am oruchwylio'r cynllun MOT. Mae'n gwneud hyn drwy:

- Awdurdodi Gorsafoedd Profi MOT a chymeradwyo profwyr MOT
- Pennu safonau profi a'r gofynion o safbwynt awdurdodi mewn perthynas â gorsafoedd profi MOT a phrofwyr MOT
- Hyfforddi Archwilwyr Awdurdodedig a phrofwyr MOT
- Ymweld â gorsafoedd profi MOT a chynnal archwiliadau i sicrhau bod safonau a chyfleusterau profi'n cael eu cynnal.
- Rhoi cyngor/rhoi camau disgyblu ar waith pan nad yw profion yn cael eu cynnal i'r safon sy'n ofynnol
- Delio ag apeliadau a chwynion gan gwsmeriaid MOT
- Dealing with appeals and complaints from MOT customers

Beth os ydych yn anghytuno â chanlyniad prawf?

Trafodwch y peth gyda chynrychiolydd o'r orsaf profi MOT berthnasol os oes modd. Mae'n bwysig nad yw cyflwr y cerbyd yn cael ei newid felly peidiwch â gadael i neb wneud unrhyw waith atgyweirio i'r cerbyd.

Os ydych chi’n meddwl;

na ddylai’ch beic modur fod wedi methu:

Llenwch ffurflen apelio VT17 sydd ar gael yn unrhyw orsaf profi MOT neu ffoniwch ein llinell ymholiadau, sef ***0300 123 9000**. Rhaid i ni dderbyn eich apêl cyn pen 14 diwrnod gwaith ar ôl y prawf a bydd angen i chi dalu ffi prawf llawn. Byddwn wedyn yn cynnig apwyntiad i chi ymhen pum niwrnod i archwilio eich cerbyd eto. Os bydd eich apêl yn llwyddo, addelir cyfran, neu'r cwbl, o ffi y prawf.

Na ddylai'ch beic modur fod wedi pasio:
Rhowch wybod i ni cyn gynted ag y bo modd. Yn amodol ar dderbyn y gwyn, byddwn yn cynnig apwyntiad i chi ymhen 5 niwrnod gwaith i archwilio eich cerbyd eto (am ddim) cyn belled:

- Nad oes mwy na 3 mis wedi mynd heibio ers amser y prawf yng nghyswllt nam cyrydiad, neu:

- Hyd at 28 niwrnod yng nghyswllt diffygion eraill

Mae cyfeiriad eich swyddfa Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) leol wedi'i arddangos yn yr orsaf profi MOT neu gellir ei gael drwy ffonio ein huned ymholiadau cyffredinol ar *0300 123 9000.

- Yr ydym yn cynnig y gwasanaeth hwn fel dull o fonitro'r cynllun MOT a safonau diogelwch y ffyrdd yn gyffredinol.

- Ni allwn unioni unrhyw gam na gwneud cais am iawndal ar eich rhan - fodd bynnag, fe allwch chi gymryd camau ar y cyd â'ch adran Safona Masnach leol; dwyn achos eich hun neu gyfeirio'r mater i sylw'r heddlu.

- Byddwn yn rhoi adroddiad archwilio i chi yn rhestru unrhyw ddiffygion ar y cerbyd ac yn nodi'r eitemau y dylech gael gwybod amdanynt ar ôl i ni archwilio'r cerbyd.

- Bydd unrhyw gamau pellach y byddwn yn penderfynu eu cymryd yn erbyn yr orsaf brofi a gynhaliodd y prawf ar eich cerbyd yn ôl ein disgresiwn ni ac yn gyfrinachol, ac ni ddylai hynny effeithio dim ar unrhyw achos y byddwch chi'n penderfynu ei ddwyn.

Beth os ydych yn credu nad yw eich tystysgrif MOT yn ddilys?

Ewch i'n gwefan **www.direct.gov.uk/yourmotcheck**. Byddwch yn medru gwirio statws MOT neu hanes eich car (gan ddibynnu ar rai amodau).

Os ydych wedi colli neu wedi difrodi eich tystysgrif prawf

Gallwch brynu copi arall o'r dystysgrif prawf gan unrhyw orsaf profi MOT. Ond mae'n rhaid i chi ddangos bod gennych hawl i gael copi o'r ddogfen. Rhaid i chi roi'r rhif prawf oedd ar y dystysgrif wreiddiol neu'r rhif unigryw oddi ar y ddogfen gofrestru (V5c), yn ogystal â Rhif Cofrestru'r Cerbyd. Fel arall, gallwch fynd â'r cerbyd i'r orsaf profi MOT wreiddiol i fodloni'r prawf hwn.

Y ffi uchaf y gellir ei chodi am gopi o'r dystysgrif yw £10 neu hanner ffi'r prawf os yw'n llai na hynny.

Os nad ydych yn fodlon ar ein gwasanaeth

Os nad ydych chi'n fodlon â'r ffordd y cafodd eich prawf ei gynnal, rhowch wybod i ni, gan fod hyn yn ein helpu ni i wneud yn siwr fod gorsafoedd profi MOT yn rhoi gwasanaeth da. Cysylltwch â'r Rheolwr Ardal yn eich swyddfa VOSA leol. Mae'r cyfeiriad i'w weld ar y poster Ffioedd ac Apeliadau yn eich gorsaf profi MOT neu gallwch ffonio ein llinell ymholiadau MOT ar ***0300 123 9000**.

Pencadlys a Chanolfan Hyfforddi

VOSA, Berkeley House, Croydon Street, Bristol BS5 0DA.
Cyfeiriad gwefan VOSA: **www.dft.gov.uk/vosa**
E-bost: **enquiries@vosa.gov.uk**

VOSA/MOT COMP/2242/SEP 11

Ewch i'n gwefannau:

Cwsmeriaid masnachol
www.businesslink.gov.uk/transport

Modurwyr preifat
www.direct.gov.uk

Gwybodaeth gorfforaethol
www.dft.gov.uk/vosa

Cysylltwch â ni:

E- bost
enquiries@vosa.gov.uk

Rhif Ffôn Cenedlaethol
0300 123 9000*

Dydd Llun i Ddydd Gwener - rhwng
7.30am a 6.00pm (oriau gwaith arferol)

COVER IMAGE: MILOVAD@SHUTTERSTOCK

**Codir cyfradd isel am alwadau a ddarperir gan BT. Gall cyfraddau darparwyr eraill amrywio.*